**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD GWENER, 8 IONAWR 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, H.Jenkins, A.Evans, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, C.Furlow-Harris, K.Gilbert, D.Griffiths, C.Plowman a/ac K.Warren

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylai'r Cynghorydd R.G Jones gael ei benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A. Wingrave | Parthed: Ceisiadau amrywiol am gronfa grant gan ei bod yn aelod o Gyngor Cymuned Blaenhonddan. Roedd o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem.<br><br>Parthed: Cynllun Prosiectau Bach Cynghorau Cymuned gan ei bod yn aelod o Gyngor Cymuned Blaenhonddan. Roedd o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y |

cyfarfod ar ddechrau'r eitem.

Parthed: Adroddiad Preifat - Cytundeb Arfaethedig am brydles, prydles tir, trwydded i adeiladu ac opsiwn i brynu tir ac adeiladau a adwaenir fel yr hen Laethdy oddi ar Cribbs Row, Castell-nedd gan ei bod yn adnabod perchnogion y busnes dan sylw ac maent wedi rhoi gwobrau i gystadlaethau ar-lein a drefnwyd gan y Cyng. Wingrave drwy Facebook er budd y gymuned yn ystod y cyfyngiadau symud. Nid yw'r Cyng. Wingrave wedi derbyn unrhyw un o'r gwobrau yn bersonol ond roedd o'r farn bod ei diddordeb yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd E.V.Latham | Parthed: Penodi a Diswyddo Cynrychiolwyr Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol gan ei fod yn gadeirydd corff llywodraethu Ysgol Gynradd Tywyn lle maent yn ystyried ei ail-benodi'n Llywodraethwr-gynrychiolydd yr ALl. Mae hefyd yn gadeirydd corff llywodraethu Ysgol Bae Baglan. Roedd y Cyng. Latham o'r farn bod ei fuddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Clement-Williams | Parthed: Gorchmynion Creu neu Ddiddymu Arfaethedig ar gyfer y llwybr troed o Heol Hodgson i afon Tawe – Cymuned Ystalyfera, gan fod ganddi deulu sy'n byw ar Heol Hodgson. Roedd y Cyng. Clement-Williams o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |
| | Parthed: Penodi a Diswyddo Cynrychiolwyr Llywodraethwyr yr Awdurdodau Lleol gan fod ganddi wyrion ac wyresau sy'n mynychu ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae gan y Cyng. Clement-Williams hawl i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd D Jones | Parthed: Ceisiadau amrywiol am gronfa grant gan ei bod yn aelod o Gyngor Cymuned Blaenhonddan. Roedd o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |
| | Parthed: Cynllun Prosiectau Bach Cyngor Cymuned gan ei bod yn aelod o Gyngor Cymuned Blaenhonddan. Roedd o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |

3. **IS-BWYLLGOR (CYLLID) Y CABINET**

**Penderfyniad:**

Sefydlu Is-bwyllgor (Cyllid) y Cabinet yn unol â'r adroddiad i'r Cyngor ar 23 Rhagfyr 2020

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i gael strwythur penderfynu sy’n addas at y diben.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 4. CLEFYD COED YNN

**Penderfyniadau:**

1. Dylid nodi canfyddiadau'r arolwg coed;

2. Rhoi cymeradwyaeth i'r cyngor gymynu coed sy'n anniogel oherwydd Clefyd Coed Ynn Chalara lle bo angen ar dir y cyngor, neu fel arall fel sy'n dod o fewn cylch gwaith y cyngor fel Awdurdod Priffyrdd;

3. Penodi Syrfëwr Coed a bod Swyddogion yn prosesu'r newidiadau angenrheidiol i'r sefydliad;

4. Bod Swyddogion yn mynd ar drywydd tirfeddianwyr preifat i gymryd camau lliniaru mewn perthynas â Chlefyd Coed Ynn ar eu tir, ymhellach i'w dyletswydd gofal, gan gynnwys camau gorfodi lle bo angen;

5. Bod Swyddogion yn parhau i geisio grantiau i helpu i ailblannu coed wedi'u cymynu mewn lleoliadau priodol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Rheoli achosion o Glefyd Coed Ynn Chalara ledled y fwrdeistref sirol a bod yr awdurdod yn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

5. **TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – ARCHWILIAD O ASESIAD PERFFORMIAD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT AR GYFER 2019-2020**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

6. **SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ARCHWILIAD O GYNLLUN GWELLA CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT AR GYFER 2020-21**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

7. **YMRWYMIAD I SYSTEM TGCH A FFEFRIR I GEFNOGI SWYDDOGAETHAU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Penderfyniadau:**

1. Bod y risgiau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar hyn o bryd yn cael eu hasesu fel rhai sy'n gorbwyso'r manteision a ragwelir;

2. Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn oedi cyfranogiad yn y rhaglen nes bod y risgiau a nodwyd wedi'u lliniaru'n ddigonol;

3. Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr TGCh corfforaethol ac yn buddsoddi yn natblygiad System Wybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Oracle Apex hyd nes y bernir bod System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn addas at y diben.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ddatblygu System Wybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Oracle Apex, a fydd yn sicrhau bod gennym ddatrysiad TGCh wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer anghenion Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal

â chael ei adeiladu ar lwyfan a fydd yn darparu amgylchedd sefydlog i TGCh hyd y gellir rhagweld.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. Ailbwysleisiodd y Cynghorwyr A.Wingrave a D.Jones eu buddiannau ar yr adeg hon o'r cyfarfod a thynnu'n ôl o'r cyfarfod am barhad yr eitem.

**Penderfyniadau:**

Bod y ceisiadau canlynol am y Gronfa Grant Amrywiol yn cael eu cymeradwyo:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Lles Cwmafan | Dyfarnu grant o £300 y flwyddyn tuag at gost rhent o £330 a fydd yn daladwy o 1 Ebrill 2021, mewn perthynas â Phrydlesu Tir yn Ebbw Vale Row sy'n ffinio â Chlwb Rygbi Cwmafan. |
| Cyngor Cymuned Blaenhonddan | Dyfarnu grant o £2,068 y flwyddyn tuag at gost rhent o £2,395.80 y flwyddyn a fydd yn daladwy o 1 Ebrill 2021, mewn perthynas â phrydlesu Canolfan Gymunedol Caewern. |
| Cyngor Cymuned Blaenhonddan | Dyfarnu grant o £650 y flwyddyn tuag at gost rhent o £715 y flwyddyn a fydd yn daladwy o fis Mehefin 2021, mewn perthynas â phrydlesu Parc Rhanbarthol Waunceirch. |

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9.

Ailbwysleisiodd y Cynghorwyr A.Wingrave a D. Jones eu buddiannau a thynnu'n ôl o'r cyfarfod am barhad yr eitem.

**Penderfyniad:**

Bod grant sy'n werth 30% o'r costau gwirioneddol hyd at uchafswm o £6,000 yn cael ei gymeradwyo i Gyngor Cymuned Blaenhonddan fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cydymffurfio â'r polisi cymeradwy a galluogi gwelliannau cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **GORCHMYNION CREU NEU DDIDDYMU ARFAETHEDIG AR GYFER Y LLWYBR TROED O HEOL HODGSON I AFON TAWE - CYMUNED YSTALYFERA**

Ailbwysleisiodd y Cynghorydd C.Clement-Williams ei buddiant ar yr adeg hon a thynnu'n ôl o'r cyfarfod am barhad yr eitem.

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth fod y ward yr effeithiwyd arni yn ardal Godre'r-graig ac nid fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Penderfyniadau:**

1. Gwneud Gorchymyn Creu llwybr cyhoeddus yn unol ag Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn perthynas â'r llwybr a ddangosir fel A1-B1-C1-D1-D2-E1 a hefyd F1-G fel y nodir yng Nghynllun rhif 3 i'r adroddiad a ddosbarthwyd;

2. Gwneud Gorchymyn Diddymu'n unol ag Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 mewn perthynas â'r llwybr a ddangosir A-B-C-D-E fel y nodir yng Nghynllun rhif 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Os na dderbynnir gwrthwynebiadau i'r ddau orchymyn uchod, yna cânt eu cadarnhau ynghyd â'r gorchymyn addasu a wnaed yn gynharach o dan ddarpariaethau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y dangosir fel llinell drom ar gynllun rhif 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

1. Roedd angen darparu llwybr cyhoeddus o Heol Hodgson i afon Tawe o ystyried bod y cyngor hwn wedi cytuno bod llwybr cyhoeddus wedi bodoli o'r ffordd honno i'r afon cyn y datblygiad tai.

2. O ystyried bod y datblygiad tai wedi rhwystro llinell y llwybr gwreiddiol, roedd angen dewis arall. Gan fod yr ymgais flaenorol i ddargyfeirio'r llwybr wedi methu, yr unig ateb ymarferol arall yw opsiwn i osod un o'r pwyntiau ymadael yn G1 fel y nodir yng nghynllun rhif 3.

3. O ganlyniad i fabwysiadu ffyrdd stadau o fewn y datblygiad tai, ni ellir gwneud gorchymyn dargyfeirio arall, ond byddai gwneud gorchymyn dileu neu ddiddymu ar yr un pryd yn dal i gyflawni'r un canlyniad. Byddai hyn yn dileu llinell y llwybr sy'n mynd drwy'r stad o dai ac yn cynnig dewis arall drwy wneud gorchymyn creu.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda rhestr safonol o sefydliadau megis Cymdeithas y Cerddwyr, eu cynrychiolwyr lleol, Byways and Bridleways Trust, y Cyngor Cymuned, yr Aelod Lleol ynghyd â chartrefi Taylor Wimpey a Barratts yn ogystal â'r rheini y mae llinell y llwybr presennol yn effeithio ar eu tai a'r rheini sy'n byw'n agos at y llwybr newydd arfaethedig lle mae'n arwain at y stad o dai ac oddi yno.

## 11. FFORDD FYNEDIAD BROMBIL A GELLI TUDUR, MARGAM. GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG - GORCHYMYN 2020

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad i Orchymyn (Heol Fynediad Brombil a Gelli Tudur, Margam) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg) 2020 fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd, a bod y cynllun yn cael ei weithredu ar y safle fel y'i hysbysebwyd. Hysbysir gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2020 a derbyniodd oddeutu 20 eiddo lythyrau a ddosbarthwyd â llaw gyda chynllun. Ymgynghorwyd hefyd â'r aelod lleol.

## 12. PENODI A CHAEL GWARED AR GYNRYCHIOLYDD LLYWODRAETHWR ALL

Ailbwysleisiodd y Cynghorydd E.V.Latham ei fuddiant ar yr adeg hon o’r cyfarfod a thynnu'n ôl o'r cyfarfod am barhad yr eitem.

Roedd y Cabinet yn cefnogi'r cais i hepgor y cyfnod galw i mewn o dridiau oherwydd yr angen i benodi ymgeiswyr i gyrff llywodraethu fel mater o frys.

**Penderfyniadau:**

1.Yn unol â'r polisi a gymeradwywyd, dylid cymeradwyo'r newidiadau canlynol i gynrychiolwyr Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol hyd at, a chan gynnwys diwedd tymor y gwanwyn 2020/21:

Ysgol Gynradd Blaendulais
Ail-benodi'r Cyng. Stephen Hunt o 1 Ebrill 2021
Ail-benodi Mr  Gary James o 1 Ebrill 2021

Ysgol Gynradd Coedffranc
Penodi Mr Andrew Addis-Fuller

Ysgol Gynradd y Creunant
Ail-benodi Mrs Sarah Griffiths o 1 Ebrill 2021

Ysgol Gynradd y Gnoll
Penodi'r Cyng. Sandra Miller

Ysgol Gynradd Godre'r-graig
Penodi Mrs Glenys Protheroe

Ysgol Gynradd Rhydyfro
Ail-benodi'r Cyng. Linet Purcell o 1 Ebrill 2021 Linet Purcell   o 1 Ebrill 2021

Ysgol Gynradd Tai'rgwaith
Penodi Mrs Elinor Ervine

Ysgol Gynradd Tywyn
Ail-benodi'r Cyng. Edward Latham o 1 Ebrill 2021

YGG Blaendulais
Ail-benodi Mrs Gaynor Smith o 1 Ebrill 2021

Ysgol Gynradd Ynysfach
Ail-benodi Mrs Gloria Felton o 1 Ebrill 2021

Ysgol Hendrefelin
Penodi Ms Beryl Richards

Gohirio'r swyddi gwag canlynol ar gyfer llywodraethwyr ysgol:-

Ysgol Gynradd Coedffranc
Ysgol Gynradd y Gnoll
Ysgol Gynradd Godre'r-graig
Ysgol Gynradd Sandfields
Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff
Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff (Castell-nedd)
Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth San Joseff

Ysgol Gymunedol Gynradd Tonnau
YGG Castell-nedd
YGG Pontardawe
Ysgol Bae Baglan
Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i gyfrannu at lywodraethu ysgolion yn effeithiol drwy gynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith.

## 13. EITEMAU BRYS

Oherwydd bod angen ymdrin â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod 20 a 21 isod ar unwaith, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem brys yn unol ag Adran 100B(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

## 14. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraffau 12, 13 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

15. **<u>Y GWASANAETH ADNEWYDDU AC ADDASU TAI YN AD-DALU ARIAN Y GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Hepgor swm llawn yr arian grant fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**

Sicrhau bod y cyngor yn arfer ei ddisgresiwn o dan Ddeddf Grantiau Tai Adeiladu ac Adfywio 1996: Grant Cyfleusterau i'r Anabl (amodau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo neu dalu'r grant) - Caniatâd Cyffredinol 2008.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **<u>DILEU TRETH Y CYNGOR (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Cymeradwyo dileu'r symiau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**

Galluogi'r cyngor i ddileu cyfrifon treth y cyngor sy’n anadferadwy.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

17. **DILEU DYLEDION DYLEDWYR (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo dileu dyledion fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ddileu dyledion sy'n anadferadwy.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

18. **ADRODDIAD Y RHEOLWR AM GARTREF DIOGEL I BLANT HILLSIDE (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 13)**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

19. **RHEOLIADAU GWASANAETHAU RHEOLEIDDIEDIG (DARPARWYR GWASANAETHAU AC UNIGOLION CYFRIFOL) (CYMRU) 2017 (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 13)**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

20. **CYTUNDEB ARFAETHEDIG AM BRYDLES, PRYDLES TIR, TRWYDDED I ADEILADU AC OPSIWN I BRYNU TIR AC ADEILADAU A ADWAENIR FEL YR HEN LAETHDY ODDI AR CRIBBS ROW, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Cytundeb am Brydles, Prydles Tir, Trwydded i Adeiladu ac Opsiwn i Brynu, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi busnes lleol sefydledig i ddatblygu ac ehangu ei fusnes drwy fuddsoddiad ariannol sylweddol er budd Castell-nedd a'r gymuned ehangach.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

21. **DISWYDDO CYNRYCHIOLYDD LLYWODRAETHWR AWDURDOD LLEOL (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 12)**

**Penderfyniad:**

Yn unol â’r polisi cymeradwy, caiff cynrychiolydd llywodraethwyr yr ALl a enwir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat ei ddiswyddo ar unwaith.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Nid oedd ymddygiad cynrychiolydd llywodraethwyr yr awdurdod lleol a enwyd yn cyd-fynd â safonau disgwyliedig y cyngor hwn na safonau y byddai disgyblion/rhieni a staff yn eu disgwyl gan rywun mewn sefyllfa o gyfrifoldeb o'r fath.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith.

**CADEIRYDD**